**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol

5 Mehefin 2019

Annwyl Aelodau'r Cynulliad

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am y gofyniad i roi Cardiau Teithiau Rhatach (pasys bws) newydd i ddeiliaid pasys cymwys erbyn 31 Rhagfyr 2019.

Ar hyn o bryd mae Cardiau Teithiau Rhatach yn cael eu rhoi gan awdurdodau lleol ar ffurf cerdyn clyfar, ac iddynt ddyddiad dod i ben cyffredin o 31 Rhagfyr 2019. Bydd y cardiau clyfar yn dod i ben ar y dyddiad hwn ac ni fydd yn bosibl estyn oes y cerdyn. O ganlyniad, bydd angen newid pob cerdyn clyfar sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd (tua 750,000 o gardiau) erbyn 31 Rhagfyr 2019, i sicrhau y gellir parhau i ddefnyddio cardiau gyda'r offer cardiau clyfar ar wasanaethau bysiau.

I sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau, gan gynnwys y GDPR, bydd angen i bob deiliad pas presennol wneud cais am Gerdyn Teithio Rhatach newydd, gan ddefnyddio gwasanaeth canolog ar-lein newydd. Mae'n bwysig iawn gwybod na fydd cardiau clyfar newydd yn cael eu hanfon at ddeiliaid pasys presennol yn awtomatig.

Bydd Aelodau'n gwybod, yn ôl y gyfraith, mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000. Fodd bynnag, oherwydd yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer rhaglen o'r fath, rwyf wedi cytuno i Weinidogion Cymru weithredu fel asiant i awdurdodau lleol i gyflawni'r rhaglen hon. Mae'n bleser gennyf eich hysbysu fy mod wedi gofyn i Drafnidiaeth Cymru weithredu ar ran Llywodraeth, i gwblhau'r rhaglen i roi cardiau newydd.

Rwy'n ddiolchgar am gydweithrediad ac agwedd gadarnhaol swyddogion awdurdodau lleol, wrth iddynt weithio gyda fy swyddogion yn Nhrafnidiaeth Cymru i gwblhau'r rhaglen hon. Mae'n hanfodol nad yw deiliaid pasys yn profi unrhyw fylchau o ran eu mynediad at wasanaethau bysiau, ac rwy'n hyderus, drwy weithio gyda'n gilydd, y byddwn yn sicrhau canlyniad llwyddiannus.

Hoffwn i bwysleisio na fydd y meini prawf cymhwysedd ar gyfer deiliaid pasys yn newid o ganlyniad i'r rhaglen i roi cardiau newydd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd ymgyrch wybodaeth ac ymgysylltu gynhwysfawr yn cael ei lansio gan Drafnidiaeth Cymru fis Medi nesaf, i hysbysu unigolion cymwys am yr angen i wneud cais am gerdyn newydd.  Bydd Trafnidiaeth Cymru yn sicrhau y bydd trefniadau lleol ar waith ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad  at y gwasanaeth canolog ar-lein, er mai gwneud cais ar-lein fydd yr opsiwn a ffefrir.

Rwyf wedi atodi nodyn briffio cryno er gwybodaeth Aelodau. Rwyf hefyd wedi gofyn i Trafnidiaeth Cymru i drefnu sesiwn briffio yn y Senedd i gwrdd ag Aelodau ar Dydd Mercher 19fed o mis Mehefin er mwyn i chi gael rhagor o gefndir ac i drafod unrhyw materion llosg. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cysylltu gyda'ch swyddfeydd yn fuan gyda manylion y sesiwn briffio yma.

Mae'r rhaglen i roi Cardiau Teithio Rhatach newydd yn gyfle gwych i sicrhau bod y cardiau newydd yn addas ar gyfer y dyfodol, ac yn gydweddol â gwelliannau posibl yn y dyfodol megis integreiddio ehangach ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus – yn ddarostyngedig i'r rheoliadau a chytundeb priodol.

Byddaf yn rhoi diweddariadau i Aelodau ar unrhyw ddatblygiadau.



**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

# Ymgyrch Cardiau Bws Am Ddim

## Nod yr ymgyrch

Mae Trafnidiaeth Cymru yn rheoli'r gwaith o ailgyflwyno tua 750,000 o Gardiau Bws Clyfar am ddim ar ran Llywodraeth Cymru, sy'n gweithio fel asiantwyr ar ran awdurdodau lleol yng Nghymru.

Bydd y broses gyflwyno hon yn un o raglenni mwyaf TrC o newidiadau cysylltiedig â'r cyhoedd sy'n cael eu rhoi ar waith ledled Cymru. Bydd hyn yn golygu bod angen cyrraedd rhai o'r dinasyddion mwyaf agored i niwed mewn cymunedau ym mhob cwr o Gymru ac ymgysylltu â nhw.

Bydd elfen hanfodol o'r cynllun cyfathrebu yn cynnwys proses rheoli rhanddeiliaid gynhwysfawr. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â staff y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt ledled ein sefydliadau partner, yn ogystal â sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â'r rhwydwaith ehangach o ddeiliad cardiau (teulu, gofalwyr, gweithwyr cymorth) drwy gydol y camau.

## Amcanion cyfathrebu

Gwneud yn siŵr bod gan y cynulleidfaoedd sy'n cael eu targedu ddigon o wybodaeth a'u bod yn gwybod yn glir beth y mae angen iddynt ei wneud, gan arwain at y canlynol:

Lleiafswm o 95% o ddeiliaid cardiau gweithredol i ail-wneud cais erbyn 31 Rhagfyr 2019


80% o ddeiliaid cardiau gweithredol i ail-wneud cais ar-lein

100% o ddeiliaid cardiau gweithredol erbyn diwedd mis Ionawr 2020

90% gwsmeriaid yn fodlon â'r broses ail-wneud cais

Effeithio ar 100% o staff
Deall eu rôl yn y newid

Bydd Teithio'n Llesol a blaenoriaethau o ran hygyrchedd yn cael eu hadlewyrchu ledled yr ymgyrch, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.




Mae'r ymgyrch yn un Cymru gyfan. Bydd ystyried lefel hygyrchedd a gallu deiliad cardiau i ail-wneud cais yn annibynnol yn rhan hanfodol o'r dulliau a'r prif negeseuon rydym yn eu dewis er mwyn sicrhau bod cymorth addas ar gael i'r rheini sydd fwyaf mewn angen.

Bydd y gweithgarwch cyfathrebu yn cael ei gyflwyno fesul dipyn rhwng mis Ebrill 2019 a mis Chwefror 2020 er mwyn rheoli'r traffig ar PTI Cymru a llwyfannau ar-lein.

# Deall y gynulleidfa

## Rhanddeiliaid Allanol




Ymgyrch wedi'i anelu at y **750,000*** o ddeiliaid cardiau bws cyfredol -

- mae 420,000 ohonynt yn ddefnyddwyr gweithredol (yn ystod y 12 mis diwethaf)
- Mae 90% ohonynt dros 60 oed
- Mae 10% ohonynt yn ddinasyddion anabl. (5 mlynedd +)

Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaethau hefyd yn elfen hanfodol er mwyn gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd, er enghraifft, awdurdodau lleol a gwasanaethau'r GIG.

Ar ôl i ddemograffeg y gynulleidfa gael ei sefydlu, gallwn gynllunio dewisiadau hygyrchedd er mwyn sicrhau cymaint o ymgysylltu â phosibl h.y. radio, print ayb.


***ffigurau amcan**

## Llysgenhadon a Rhanddeiliaid Mewnol

Yr holl staff mae'r newidiadau'n effeithio arnynt –

- Staff rheng flaen – awdurdodau lleol, PTI Cymru
- Gyrwyr
- Deiliaid cardiau (staff TrC, Awdurdodau Lleol, Darparwyr Bysiau a Llywodraeth Cymru)
- Teulu/Gofalwyr (staff TrC, Awdurdodau Lleol, Darparwyr Bysiau a Llywodraeth Cymru)

## Strategaeth



Bydd angen cyfathrebu'n effeithiol heb achosi panig na gorlwytho staff a systemau. Byddwn yn lansio'n araf ac yn datblygu'r ymgyrch gyda negeseuon sy'n esblygu.

Bydd tîm y Prosiect yn arwain y gwaith o ddatblygu cynllun manwl o weithgareddau ac yn drafftio gydag awdurdodau lleol, gweithredwyr, deiliaid cardiau a grwpiau pobl hŷn ac anabl. Bydd y cyfathrebiadau yn cynorthwyo drwy adolygu, cynhyrchu, brandio a chysylltu â'r cyfryngau a busnes y llywodraeth.

**Prif negeseuon ar draws y camau:**

**Cam 1 – Paratoi/Cynllunio**

Dim angen i ddeiliaid cardiau boeni am hyn

**Cam 2 - Cardiau newydd/Defnyddwyr newydd**

Newydd i'r cynllun. Pam mae fy ngherdyn i'n wahanol?

**Cam 3/4 – Gweithgareddau targedu/allgymorth**

Ewch ati i ail-wneud cais nawr – rhagor o wybodaeth
Ydych chi wedi adnewyddu?
Dewch draw i un o'n sesiynau galw heibio
A yw eich perthynas/ffrind wedi adnewyddu?
Hen gerdyn yn cael ei ddefnyddio, ewch i gael un newydd (gyrwyr)

**Cam 5 – Cyfnod gras**

Hen gardiau ddim yn cael eu derbyn mwyach
Gwnewch gais am eich cerdyn newydd nawr

## Prif negeseuon corfforaethol – cysylltiedig â gweledigaeth TrC:

Bydd yn gyfle da i hyrwyddo brand TrC ledled Cymru.


- Cydweithio â’n partneriaid i ddarparu'r profiad cwsmer gorau i bobl Cymru (Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol)
- I'r bobl. I’r gymuned. I Gymru.
- Sicrhau bod pobl a lleoedd yng Nghymru yn symud.

**Mae’r cynllun yn cyd-fynd â Pholisi Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) ac amcanion Cynllun Corfforaethol TrC**.

Bydd y naw nodwedd warchodedig yn cael eu cynrychioli ar draws y deunyddiau cyfathrebu.

Bydd y cynllun cyfathrebu yn cael ei strwythuro o amgylch **6 phrif gam**:

1. Paratoi/Cynllunio/llinellau ymatebol yn barod i gael eu cyflwyno’n dactegol (Chwefror - Mehefin 19)
2. Cardiau newydd (defnyddwyr newydd) (Mehefin - Awst 19)
3. Gweithgareddau wedi’u targedu/allgymorth (Medi - Hydref 19)
4. Ymgyrch ehangach (Tachwedd - Rhagfyr 2019)
5. Cyfnod Gras (Ionawr 2020)
6. Lansio’r weledigaeth Tocynnau (i’w gadarnhau) (Chwefror 2020)





Gweithgareddau manwl i'w cynnwys yng Nghynllun y Rhaglen Weithgareddau.

(Gweler Atodiad 1)


## Amserlen

Chwefror 201 9 - Chwefror 2020

Er mwyn egluro'n unig




## CYNNIG y Gyllideb




- Gweithgaredd
- Print/dylunio/cyfochrog
- Post uniongyrchol (Gweler Atodiad 2)


Mae’r cynnig yn seiliedig ar gostau arfaethedig ymgyrch ar y raddfa hon.


Byddwn yn edrych ar yr holl opsiynau sy’n costio dim byd/cyn lleied â phosibl er mwyn cyd-fynd â’r ymgyrch ehangach a’i chefnogi, gan gynnwys yr holl lwyfannau mewnol ledled TrC a’n rhanddeiliaid allweddol.

*gan gynnwys ymgysylltu, digwyddiadau allgymorth a chyfleoedd hysbysebu ledled Cymru.

**Bydd nifer o sianeli yn cael eu hystyried, gan gynnwys:**

- Ymgyrch aml-sianel a fydd yn cynnwys cyfathrebu mewnol ac allanol yng nghyswllt integreiddio sianeli
- Rhyngweithio wyneb yn wyneb i gynorthwyo'r rheini sydd fwyaf mewn angen
- Cael eu harwain gan daith y cwsmer
- Pwysigrwydd didoli cwsmeriaid – strategaeth data
- Gwahanol gyfathrebwyr – lefel leol (e.e. gweithwyr cymdeithasol, staff y GIG)
- Defnyddio metrigau priodol
- Rhoi gwaith allan ar gontract lle bo hynny’n briodol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gyllideb






**Adnodd TrC**



Swyddog Cyfathrebu | Rheolwr Cyfathrebu | Swyddog Digidol | Rheolwr y Cyfryngau | Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu

## Rhoi sgôr / gwerthuso


Byddwn yn monitro allbynnau a chanlyniadau yn wythnosol drwy gydol yr ymgyrch er mwyn rheoli pa mor effeithiol yw negeseuon/gweithgareddau a gwerthuso'r ymgyrch ar ôl iddi ddod i ben.

Adolygu effaith y gwahanol strategaethau – olrhain nifer o wahanol sianeli.




Ffigurau gwneud cais – ar-lein ac ar bapur

– Bydd y data o'r ceisiadau hefyd yn dangos i ni ym mha ardaloedd mae llawer o ymateb neu ddim llawer o ymateb – gan ganiatáu i ni dargedu ardaloedd drwy gydol yr ymgyrch.



– Nifer y bobl sy'n ymweld â thudalennau'r wefan/y porth ar-lein, yn rhannu ar gyfryngau cymdeithasol neu'n hoffi a rhoi sylwadau – ystadegau clicio
– Sylw ar gyfryngau cymdeithasol (Conversocial)
– Ystadegau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM)/gwerthuso




– Ffigurau gwneud cais – ar-lein ac ar bapur



Edrych ar opsiwn i anfon arolwg allan ar ôl cyflwyno'r cardiau newydd er mwyn cael sgôr ar gyfer profiad y defnyddwyr o newid y cardiau, fel rhan o ymrwymiadau TrC i brofiad cwsmeriaid.



– Sylw ar y cyfryngau (postio newid – dim newyddion yn newyddion da)

– Lefel y traffig i'r llinell gymorth (traffig isel yn dangos llwyddiant y cyrhaeddiad)



Ymgysylltiad y staff

– Arolygon Pyls i wirio agweddau'r staff ar ôl y newidiadau
– Adborth gan staff – TrC a gweithredwyr
– Adborth gan randdeiliaid allweddol e.e. Awdurdodau lleol, cynghorwyr lleol